**Atodiad 2 - Cymhariaeth y sefyllfa bresennol â'r sefyllfa pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni**

| Ffactor | Y sefyllfa bresennol | Y sefyllfa pe gweithredir y cynnig |
|---|---|---|
| **Maint dosbarthiadau** | Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. | Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Mae dysgwyr Ysgol Llanllyfni yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas o rhwng 13 a 21 o ddysgwyr ymhob dosbarth (Ionawr 2026).<br><br>Mae 3 dosbarth gydag oedrannau cymysg yn Ysgol Llanllyfni, ynghyd â dosbarth Meithrin. |
| **Niferoedd dysgwyr** | Niferoedd y dysgwyr yn parhau yn isel yn Ysgol Nebo (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6).<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. | Byddai'r dysgwyr yn cael cynnig lle yn Ysgol Llanllyfni, lle roedd 58 o ddysgwr Derbyn-Blwyddyn 6 a 13 dysgwr Meithrin yn Ionawr 2026.<br><br>Mae niferoedd yr ysgol amgen yn fwy cadarn a chynaliadwy. Byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau cyfanswm y lleoedd gwag ar draws dalgylchoedd Nebo a Llanllyfni o oddeutu 55% i 32% (Derbyn-Blwyddyn 6). |
| **Arweinyddiaeth a staffio** | Mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad cyllidol llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. | Mae gan Ysgol Llanllyfni bennaeth parhaol, gydag ymrwymiad addysgu o 50% a 2.5 diwrnod digyswllt ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth.<br><br>Mae strwythur staffio Ysgol Llanllyfni yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth a'n caniatáu mwy amser digyswllt i'r Pennaeth o'i gymharu ag Ysgol Nebo. |
| **Y gymuned** | Nid oes canolfan gymunedol ym mhentref Nebo. Mae trigolion Nebo a Nasareth yn defnyddio ystafell gymunedol yr ysgol ar gyfer cyfarfodydd, clybiau lleol, gwersi Cymraeg, digwyddiadau cymdeithasol, gweithgareddau gwirfoddol ac amrywiaeth o weithgareddau cymunedol eraill. Mae'r ysgol felly yn gweithredu fel canolbwynt cymunedol. | Byddai Nebo yn colli ysgol a chanolbwynt cymunedol, ac felly rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned. Byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith drwy annog cysylltiadau a chydweithio rhwng cymuned Nebo ac Ysgol Llanllyfni. Byddai Polisi Ôl-ddefnydd y Cyngor yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol adeilad yr ysgol gan roi ystyriaeth i'r gweithgareddau cymunedol presennol. |

| Ffactor | Y sefyllfa bresennol | Y sefyllfa pe gweithredir y cynnig |
|---|---|---|
| **Adnoddau ariannol** | Yn ôl cyllideb 2026-27, rhagwelir y bydd cyllideb Ysgol Nebo yn £183,793.<br><br>Rhagwelir y bydd y gost gyfartalog fesul dysgwr yn £16,066, o gymharu â chyfartaledd sirol o £5,998, a bydd yr ysgol yn derbyn £64,046 drwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. | Yn ôl cyllideb ariannol 2026-27, amcangyfrifir mai'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Llanllyfni fydd £6,250. Pe gweithredir y cynnig, a phe byddai holl ddysgwyr Ysgol Nebo yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni, rhagwelir arbediad blynyddol o £142,000, llai costau cludiant ychwanegol o hyd at £30,000, gan arwain at arbediad net o oddeutu £112,000 y flwyddyn. Rhagwelir hefyd y byddai'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Llanllyfni yn gostwng i £6,121. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Mae Ysgol Nebo yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, Categori 3.<br><br>Mae'r ysgol yn cyfrannu at ddefnydd addysgol, cymdeithasol a chymunedol o'r Gymraeg yn Nebo a Nasareth. | Byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, Categori 3, yn Ysgol Llanllyfni.<br><br>Ni ragwelir effaith negyddol ar iaith addysg y dysgwyr, a rhagwelir mwy o gyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda mwy o gyfoedion.<br><br>Ar yr un pryd, rhagwelir y gallai colli presenoldeb yr ysgol ym Nebo gael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. O ganlyniad, byddai mesurau lliniaru'n cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol a gynhelir yno ar hyn o bryd. |
| **Ffactorau daearyddol** | Mae dysgwyr presennol yn derbyn eu haddysg yn Ysgol Nebo, o fewn eu cymuned leol. | Mae Ysgol Llanllyfni 1.6 milltir o Ysgol Nebo, gyda thaith amcangyfrifedig o tua 5 munud bob ffordd mewn car neu fws. Ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr yn teithio pellter afresymol. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir lle bo'n gymwys, a byddai dalgylch presennol Ysgol Nebo yn dod yn rhan o ddalgylch Ysgol Llanllyfni. |